# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22ain Tachwedd 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth yw cyfanswm bil cyflogau gweision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a wnaiff y Prif Weinidog roi manylion blynyddol y ffigur hwn dros y chwe blynedd diwethaf. (WAQ44881)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o weision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a wnaiff y Prif Weinidog roi manylion blynyddol y ffigur hwn dros y chwe blynedd diwethaf. (WAQ44882)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth yw cyfanswm cost weinyddu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y flwyddyn ariannol hon ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion blynyddol y ffigur hwn dros y chwe blynedd diwethaf. (WAQ44883)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A oes gan y Prif Weinidog unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ymweld ag adran Damweiniau ac Achosion Brys YPC. (WAQ44892)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Faint o arian grant a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Culturenet Cymru yn y flwyddyn ariannol hon a pha brosiectau penodol y bwriedir iddo'u noddi. (WAQ44888)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa dargedau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u gosod ar gyfer Culturenet Cymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn gyfnewid am nawdd gan y Llywodraeth. (WAQ44889)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Ddatblygu Economaidd yn y De-ddwyrain. (WAQ44860)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r gwaith cynnal ac atgyweirio ar system ffyrdd Cymru. (WAQ44863)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffyrdd yn Llangurig ar yr A44 ym Mhowys. (WAQ44878)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffyrdd ar yr A44 ym Mhonterwyd. (WAQ44879)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffyrdd ar yr A470 yn Libanus ym Mhowys. (WAQ44880)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod disgyblion ym mhob ysgol drwy Gymru'n gallu gweld cwnselydd hyfforddedig. (WAQ44861)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa brosiectau sydd ar waith neu'n disgwyl i'w rhoi ar waith er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. (WAQ44862)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa ganllawiau a roddir i'r lluoedd arfog ar gyfer recriwtio mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yng Nghymru. (WAQ44864)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhesymau dros y penderfyniad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i gais cynllunio Prosiect Royal Fern. (WAQ44884)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhesymau dros y penderfyniad i alw-i-mewn y cais cynllunio ar gyfer Prosiect Royal Fern. (WAQ44885)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog neu ei swyddogion a Sir a Dinas Abertawe ynghylch y penderfyniad i alw-i-mewn y cais cynllunio ar gyfer Prosiect Royal Fern. (WAQ44886)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Beth yw'r amcangyfrif o gost cynnal yr ymchwiliad cyhoeddus i gais cynllunio Prosiect Royal Fern. (WAQ44887)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa asesiad a wnaeth y Gweinidog ynghylch yr effaith ar elfen praesept yr heddlu ym miliau'r dreth gyngor yn sgîl y cynnig i uno pedwar heddlu Cymru ac a wnaiff ddatganiad am hyn. (WAQ44867)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o weision sifil sy’n gweithio yn adran y Gweinidog ar hyn o bryd ac a wnaiff roi manylion blynyddol y ffigur hwn dros y chwe blynedd diwethaf. (WAQ44869)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth yw cyfanswm cyllideb weinyddu adran Iechyd a gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru a wnaiff y Gweinidog roi manylion blynyddol y ffigur hwn dros y chwe blynedd diwethaf. (WAQ44870)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o ddeintyddion y GIG a adawodd GIG Cymru y llynedd, faint a ymunodd â’r gwasanaeth iechyd ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y ddwy set hyn o ffigurau dros y pum mlynedd diwethaf. (WAQ44871)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o nyrsys y GIG a adawodd GIG Cymru y llynedd, faint a ymunodd â’r gwasanaeth iechyd ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y ddwy set hyn o ffigurau dros y pum mlynedd diwethaf. (WAQ44872)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa dystiolaeth sydd gan y Gweinidog fod adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ledled Cymru’n cyrraedd y targed o bedair awr ar gyfer amserau aros. (WAQ44873)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno cwrs hyfforddi i ddatblygu galluoedd arwain nyrsys gofal brys, a pha lefel o nawdd a fydd ar gael i gefnogi cwrs o'r fath. (WAQ44874)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am aelodaeth Bwrdd y Prosiect Moderneiddio Delweddu Diagnostig. (WAQ44875)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a fydd rhagor o gyllid ar gael yn awtomatig ar gyfer Ymddiriedolaethau’r GIG fel y gall yr Ymddiriedolaethau hynny sydd â sganwyr y mae angen eu hadnewyddu yn y dyfodol agos brynu sganwyr MRI newydd yn eu lle. (WAQ44876)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau i gyflwyno ymgyrch addysg gyhoeddus i atal cam-drin plant. (WAQ44877)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa asesiad a wnaeth y Gweinidog o sut mae Cymru’n cymharu â’r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr o ran rhestri aros ysbytai’n gyffredinol fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth. (WAQ44890)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cyrraedd ei thargedau amserau aros ei hun. (WAQ44891)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru. (WAQ44859)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa bryd y dywedwyd gyntaf wrth y Gweinidog am benderfyniad Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref i wahodd prif swyddogion a chadeiryddion awdurdodau heddlu yn unig i ystyried yr opsiwn o greu un heddlu strategol yng Nghymru. (WAQ44865)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa bryd yr hysbyswyd y Gweinidog gyntaf y byddai'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi datganiad ddydd Iau 10 Tachwedd yn dweud bod 'Prif Swyddogion a chadeiryddion awdurdodau heddlu yn awr yn cael eu gwahodd i fwrw ymlaen â gwaith ar yr opsiwn canlynol ar gyfer Cymru: un llu strategol'. (WAQ44866)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a'r Ysgrifennydd Cartref am strwythur heddluoedd yng Nghymru. (WAQ44868)